# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 16.10.07

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Michael Parry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Michael Sol Owen, W. Roy Owen, M.L. Vaughan, Alan Williams (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd E.J.Hughes (Cyngor Tref Pwllheli), W. Williams (Yacht Haven), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), R.J. Wright (Sefydliad y Bâd Achub), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), David Peters a David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), David Hughes (Siambr Fasnach Pwllheli), Dr. J.L. Jones-Morris (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog), Cynghorydd B. Bracewell (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Cynghorydd Trevor Roberts (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Ken Fitzpatrick (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau), Neil Garton Jones (Prif Beiriannydd Adeiladwaith a Pheirianneg), Huw Davies (Peiriannydd Grwp) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd R.P. Hughes (Cyngor Gwynedd) a Dafydd Phillips (Harbwrfeistr Pwllheli)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Michael Parry yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn 2007/08.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd E.J. Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn 2007/08.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd W. Roy Owen na fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem yn ymwneud â Rheolaeth Harbwr a Hafan Pwllheli gan ei fod yn gysylltiedig â'r mater fel Arweinydd Portffolio.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2007 fel rhai cywir.

## 5. ADRAN MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar weithgareddau Harbwr Pwllheli gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:

### (i) Morwriaeth

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr archwiliwyd yr holl gymhorthion mordwyo ym Mhwllheli gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar 10 Medi 2007. Bydd angen cynnal a chadw nifer o'r cymhorthion gan nad ydynt mewn cyflwr derbyniol. 'Roedd sawl llusern ar y cymhorthion allweddol wedi diffodd ac 'roedd angen prynu llusernau newydd ar fyrder. Nid oedd cyflwr

presennol y cymhorthion mordwyo yn dderbyniol a bydd angen sicrhau bod staff yr Uned Forwrol yn eu harchwilio'n rheolaidd. Yn anffodus, mae cychod pleser yn parhau i geisio mordwyo tros y morglawdd, ond yn ffodus, ni achoswyd unrhyw ddifrod difrifol i'r cychod.

Mae'n anorfod bod staff yr harbwr yn paratoi a gweithredu rhaglen cynnal a chadw yn yr harbwr gan gynnwys rhaglen cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo tros fisoedd y gaeaf. Bydd angen sicrhau bod y byrddau dyfnder dwr a'r prif lithrfeydd yn cael eu cynnwys o fewn y rhaglen waith ac y cwblheir y gwaith cyn y Nadolig.

Ymgymerodd staff Uned Amddiffyn yr Arfordir archwiliad hydrograffeg o fasn y marina a'r sianel. Ymddengys bod dyfnder dwr digonol yn y sianel ar hyn o bryd er ei fod yn parhau i gulhau yn yr ardal gyferbyn â swyddfa'r Harbwrfeistr a bod dyfnder dwr hefyd yn lleihau fel y byddai'r sianel yn cyrraedd y môr agored. Er bod y mynediad i'r harbwr mewnol wedi culhau ychydig ers yr ymgyrch carthu diwethaf, nid yw hyn yn achosi cyfyngiad yn yr ardal hon. Bydd angen sicrhau bod yr Harbwrfeistr yn ailasesu effeithiolrwydd y bwiau tros dro ac yn eu hail-leoli yn y man priodol fel bo angen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### ii) Rheolaeth yr Harbwr

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Cwmni Yacht Haven Cyf wedi bod yn rheoli Hafan Pwllheli ar ran y Cyngor ers sawl blwyddyn. Yn Nhachwedd 2006, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Datblygu gyflwyniad gan "Bic Inovations" ar yr astudiaeth a gwblhawyd mewn perthynas â'r opsiynau posibl er sicrhau bod y Cyngor yn derbyn y manteision mwyaf buddiol yn yr harbwr ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y cyflwyniad, ac yn unol ag argymhelliad "Bic Inovations", penderfynodd y Pwyllgor Craffu Datblygu y dylid mewnoli rheolaeth Hafan Pwllheli am y tymor byr a bod y Cyngor yn ystyried opsiynau pellach ar gyfer y dyfodol. Ar 18 Medi 2007, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Datblygu pryd y penderfynwyd cadarnhau y dylid mewnoli rheolaeth Hafan Pwllheli gan derfynu cytundeb rhwng y Cyngor a Chwmni Yacht Haven Cyf. Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i Bwyllgor Ardal Dwyfor (Cynllunio) ar 15 Hydref 2007 pryd y penderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor y dylid mewnoli rheolaeth yr Hafan o Ebrill 2008 gan ei gyfuno â rheolaeth yr harbwr. Cyflwynir yr adroddiad yn ogystal i Fwrdd y Cyngor ar 23 Hydref 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### iii) Disgownt Lleol Hafan Pwllheli

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y penderfynwyd yn y pwyllgor diwethaf bod y swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig disgownt ar ffioedd a thaliadau angori cwch ar bontŵn yn Hafan Pwllheli ar gyfer cwsmeriaid a drigodd yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd. Cynigir gostyngiad yn ffioedd rhai angorfeydd cychod yn yr harbwr allanol. Nid oes unrhyw ddisgownt ar ffioedd a thaliadau cychod a angorwyd ar y pawl. Mae pysgotwyr llawn amser yn derbyn gostyngiad mewn costau angori ac yn derbyn gostyngiad ar gostau defnydd compownd y pysgotwyr. Ystyriwyd yr holl fanteision ac anfanteision cyflwyno gostyngiad mewn ffioedd a thaliadau angori cwch yn Hafan Pwllheli a daethpwyd i'r canlyniad na fyddai cynnig gostyngiad yn fuddiol. Byddai'n anodd profi yn union pwy sydd yn trigo'n barhaol a llawn amser yng Ngwynedd ac y byddai cynnig gostyngiad yn y ffioedd yn lleihau incwm. Parheir i argymell gostyngiad yn y ffioedd angori ar rhai angorfeydd penodedig yn yr harbwr allanol.

Awgrymodd aelod y gellir ystyried caniatau disgownt i gwsmeriaid a drigodd am 10 mlynedd neu fwy yng Ngwynedd ond na ddylid caniatau disgownt i rai gydag ail dŷ.

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau i anfon manylion am unrhyw awgrymiadau i'r swyddog.**

### iv) Digwyddiadau

Rhoddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fanylion am y digwyddiadau a gynhaliwyd ym Mhwllheli yn ystod 2007 gan dynnu sylw at y brif uchafbwynt sef cystadleuaeth ryngwladol dosbarth “Cadets”.

Mewn perthynas â “Gwyl Wakestock”, tynnodd aelod sylw at y ffaith y caewyd y ffordd ger yr harbwr ar y dydd Gwener yn ogystal â’r dydd Sadwrn. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gynnal yr ŵyl hon yn gynharach yn y tymor. Hysbysodd y swyddog y cynhelir cyfarfod gyda’r trefnwyr yr wythnos ganlynol a bwriedir trafod y materion hyn gyda hwynt.

Adroddodd cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli iddynt gyflogi swyddog digwyddiadau am gyfnod. Cyfeiriodd at y ffaith bod y pontŵn newydd wedi bod yn ased yn yr harbwr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### v) Ystadegau’r Harbwr

Tynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sylw’r cyfarfod at ystadegau atodwyd i’r adroddiad yn nodi bod 1049 o fadau dŵr personol wedi cofrestru gyda’r Cyngor yn 2007 o’i gymharu â 1208 yn 2006. Nododd bod y nifer o fadau dŵr personol a chychod pŵer a gofrestrwyd yn Harbwr Pwllheli wedi lleihau’n sylweddol yn ystod 2007 o’i gymharu â 2006 ond bod cynnydd sylweddol yn y nifer a gofrestrwyd yn y swyddfa forwrol drwy ddefnyddio gwasanaeth post. Yn 2005, cyflwynwyd cynllun a oedd yn sicrhau bod pob cwch pŵer neu fâd dŵr personol yn cofrestru gyda’r Cyngor cyn y gellir caniatau iddynt lansio ar lithrfa unrhyw harbwr neu ar unrhyw draeth yng Ngwynedd ac eithrio Nefyn a Morfa Nefyn. Cofrestrwyd 185 o gychod pŵer yn harbwr Pwllheli a 102 ar Draeth Abersoch eleni. Mae ffi cofrestru cychod pŵer a badau dŵr personol yn £14 drwy’r post neu £20 ar y traeth neu yn swyddfa’r harbwr. Mae ffi lansio’n £12 y dydd neu £124 am y tymor.

Nododd hefyd bod 164 o gychod ar angorfa yn yr harbwr allanol eleni sef ychydig yn is na’r nifer yn 2005 a 2006. ‘Roedd hyn yn achosi pryder yn enwedig o ystyried y nifer fawr o gwsmeriaid a fyddai ar restr aros yn yr Hafan. Nid oes angorfa wag yn yr Hafan ac mae 412 o gychod ar angorfa pontŵn. Yn yr harbwr allanol mae 32% o’r cychod yn rhai pŵer gyda 68% yn gychod hwylio. Yn yr Hafan mae 48% o’r cychod yn rhai pŵer gyda 52% yn gychod hwylio. Mae 455 o gychod ar y rhestr aros am angorfa yn y marina. Yn unol â rheoliadau’r Cyngor, mae pob unigolyn ar y rhestr aros wedi talu £50 er mwyn sicrhau bod y cais yn ddilys.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod rhai o’r angorfeydd yn yr harbwr allanol wedi sychu allan ac y dylid ystyried codi ffioedd gwahanol ar y cychwyr yn y man hwn. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y gwneir adolygiad manwl o’r angorfeydd yn ystod y gaeaf yn ogystal ac adolygu’r ffioedd gan gyflwyno adroddiad i Fwrdd y Cyngor yn Rhagfyr 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### vi) Canlyniad Barn Cwsmer

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar ganlyniad barn cwsmer harbwr Pwllheli am 2006/07. Fe fydd yr Uned Forwrol yn dosbarthu’r adroddiad a gyflwynodd ganlyniad yr holiadur i holl gwsmeriaid yr harbwr yn Ionawr 2008. Cyplyswyd yr adroddiad i’r llythyr a gylchredir i’r cwsmeriaid yn eu gwahodd i gyflwyno cais am angorfa yn yr harbwr yn 2008/09. Ni ragwelir y cylchredir holiadur newydd ynghlwm â’r ohebiaeth yn 2008/09.

Tynnodd aelod sylw at broblemau parcio yng nghyffiniau cwt y bâd achub ac at y posibilrwydd o osod arwyddion i atal parcio yno. Cytunodd y swyddog y byddai’n trefnu cyfarfod ar y safle gyda’r aelod i drafod y mater.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**(vii) Cyllidebau**

Rhoddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fanylion i'r pwyllgor am gyllideb harbwr Pwllheli am y flwyddyn ariannol 2006/07 a hefyd gyllid gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau am y flwyddyn 2007/08. Pwysleisiodd bod angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fyddai'r gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Harbwrfeistr yn darparu rhaglen waith manwl ar gyfer yr hydref a'r gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant.

Cyrhaeddwyd targed incwm yr harbwr allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006/07 a derbyniodd yr harbwr incwm a fyddai'n uwch na tharged. Mae targed incwm 2007/08 yn £113,540 a chasglwyd £122,709 mewn incwm hyd yma. Yn yr Hafan mae'r targed incwm eleni yn £1,418,000 ac mae'r incwm hyd yma yn £1,291,866. Rhagwelir y byddai'r cyllidebau'n cyrraedd eu targedau gwariant ac incwm.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**(viii) Ystad y Goron**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Cyngor, ers y datblygwyd yr Hafan ym Mhwllheli, wedi bod yn talu ffi i'r Goron. Mae'r ffi cyfredol yn 10%, yn seiliedig ar gyfanswm incwm gros yr Hafan. Adolygir y les gyfredol ar ôl 21 Rhagfyr 2007, ond ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai unrhyw fodd lleihau costau'r les ar gyfer y dyfodol. Bydd cytundeb newydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2008 ac yn parhau am bum mlynedd cyn yr adolygiad nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR

**a) Codiadau yn y taliadau ar gyfer 2008**

Gofynnodd aelod am i ddisgresiwn gael ei roddi gan y Cyngor pan ystyrir y taliadau arfaethedig yn y marina a'r harbwr ar gyfer 2008.

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr Uned Morwrol yn edrych ar holl daliadau yn y marina a'r harbwr ar gyfer 2008 a chyflwynir adroddiad i Fwrdd y Cyngor yn Rhagfyr 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**b) Carthu**

Gofynnodd aelod am fanylion parthed y sefyllfa ddiweddaraf ar garthu basn y marina a'r sianel i'r môr.

Hysbysodd y Prif Beiriannydd Adeiladwaith a Pheirianneg y bwriedir mynd allan i dendr yn ystod yr hydref i benodi contractwr i ymgymryd â'r gwaith carthu. Bwriadwyd yn wreiddiol i gontractwr baratoi strategaeth, ond wrth weithio ar y dogfennau ac ar y rhestr o fanylion "specifications" yn ystod yr haf, daeth yn amlwg y byddai'n well i'r Cyngor gael arbenigwyr annibynnol i baratoi strategaeth ar gyfer y carthu yn hytrach na rhoddi'r strategaeth yn nwylo contractwr. Gan bod datblygiadau diweddar gyda'r ganolfan hwylio, mae angen ymchwilio i mewn i garthu ychwaneg o'r harbwr. 'Roedd o'r farn bod budd felly i gysylltu'r gwaith hwn drwy edrych ar yr harbwr gyfan a'r sianel. Bwriedir felly cysylltu'r ddau gynllun er cael strategaeth i'r harbwr gyfan petai'r datblygiad hwylio yn mynd rhagddo. 'Roedd yn bwysig cael un strategaeth ar gyfer yr holl harbwr, ond yn y cyfamser bwriedir datrys y problemau mewn perthynas â'r lefelau yn y sianel. Bwriedir ymgymryd â gwaith carthu'r sianel yn ystod Tachwedd 2007 ac hefyd cyn i'r tymor

hwylio ddechrau y flwyddyn nesaf. Yn ogystal, bwriedir i'r adroddiad arbenigol a'r strategaeth fod yn eu lle yn ystod y misoedd nesaf gan fynd allan i dendr yn fuan yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**c) Mewnoli Rheolaeth y Marina**

Parthed y newid bwriadedig yn rheolaeth y marina, tynnwyd sylw gan aelod at ddau adroddiad a baratowyd gan ymgynghorwyr sef un yn nodi na ddylai'r Cyngor redeg y marina a'r llall yn nodi y dylai'r Cyngor ei redeg. Honnodd hefyd iddo ddeall bod trydydd adroddiad yn cael ei baratoi. 'Roedd o'r farn y byddai gwell rheolaeth petai cwmni allanol yn rhedeg y marina gan y byddai'n cynhyrchu llai o incwm dan reolaeth y Cyngor.

'Roedd aelod arall yn siomedig bod bwriad gan y Cyngor i gael gwared â gwasanaethau proffesiynol Lymington Yacht Haven Cyf ac am gymryd trosodd y cyfrifoldeb o redeg y marina eu hunain.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd trydydd adroddiad yn cael ei baratoi ar reolaeth y marina ac na chomisiynwyd adroddiad cychwynnol a gyfeiriwyd at y ffaith na ddylai'r Cyngor reoli'r Hafan. Cyfeiriodd at y manteision canlynol o fewnoli rheolaeth yr Hafan â'i gyfuno gyda rheolaeth yr harbwr –
a) Cynhyrchu arbedion bychan yn syth.
b) Cynhyrchu arbedion pellach maes o law o resymoli'r strwythur staffio.
c) Caniatau rheolaeth o gyllideb yr Hafan.
ch) Mai staff presennol yr Hafan fydd yn rheoli a chynnal yr Hafan ac na ddisgwylir unrhyw newid mewn ansawdd cyfleusterau.

(Gweler hefyd gofnod 5(ii) uchod)

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**ch) Llythyr British Marine Federation**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr a dderbyniwyd gan y "British Marine Federation" yn dilyn trafodaeth yn y pwyllgor diwethaf parthed codi ffioedd uwch ar gychod pŵer yn y marina.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr.**

**d) Ailenwi'r pwyllgor ymgynghorol gyda enw mwy perthnasol**

Datganwyd siom gan y Cadeirydd nad yw mater rheolaeth yr harbwr wedi dod gerbron y pwyllgor hwn am drafodaeth, er ei fod yn bwyllgor ymgynghorol.

**dd) A oes gan y Cyngor Gynllun Busnes sydd wedi ei ystyried a'i lunio'n briodol?**

Gofynnodd aelod os oes gan y Cyngor Gynllun Busnes wedi ei ystyried a'i lunio'n briodol.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod cynllun busnes yn cael ei baratoi cyn i unrhyw fusnes ddechrau ac felly 'roedd gan y Cyngor Gynllun Busnes mewn bodolaeth yn yr Hafan. 'Roedd cyllideb gwariant ac incwm yn bodoli yn yr Hafan ac mae'r gwasanaeth yno o safon uchel.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**e) A fydd y Cyngor yn ailystyried ymestyn cyfleusterau'r marina yn y dyfodol?**

Gofynnodd aelod, yn wyneb y ffaith bod gwir werth y marina i'r economi leol yn gorwedd yn y refeniw busnes, sy'n werth miliynau o bunnoedd, a greeir gan bŵer gwario'r deiliaid angorfeydd a'u gwesteion, yn hytrach nac yn y swm cymharol pitw o'i elw a gyfrennir i'r coffrau Treth Cyngor, a fydd y Cyngor yn ailystyried ymestyn cyfleusterau'r marina yn y dyfodol?

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod cwmni o arbenigwyr yn edrych i mewn i'r datblygiad arfaethedig ac efallai y bydd eu sylwadau ar nifer yr angorfeydd a.y. yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a baratoir ganddynt. Rhoddir ystyriaeth i nifer y cychod sy'n dod i'r harbwr a nifer yr ymwelwyr sy'n dod yno er eu cymharu gyda harbyrau eraill. Yn ogystal, edrychir ar y budd economaidd i dref Pwllheli.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 25 Mawrth 2008

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 8.00pm

**CADEIRYDD**